

DAVIES, DAVID CHRISTOPHER ('Christy'; 1878 - 1958) cenhadwr, cynrychiolydd Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr yng Nghymru

Enw: David Christopher Davies

Dyddiad geni: 1878

Dyddiad marw: 1958

Priod: Margaret Davies (née Parker)

Rhiant: Elizabeth Davies

Rhiant: John Davies

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: cenhadwr, cynrychiolydd Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr yng Nghymru

Maes gweithgaredd: Crefydd

Awdur: Evan David Jones

Ganwyd ar y 16 Gorffennaf 1878 yn Nghlydach, Cwmtawe, yn ail o ddeg plentyn John ac Elizabeth Davies. Gweithiai'r tad yn y gwaith alcan lleol ac yr oedd ganddynt siop groser. Yr oedd yn ddiagon ac yn drysorydd eglwys Calfaria (B). Gweinidog yr eglwys honno oedd [T. Valentine Evans](#) (tad [Syr David Emrys Evans](#)) a bu ei ddylanwad ef yn drwm ar y bachgen. Magwyd ef ar aelwyd gerddorol a chwaraeai'r tad y trombôn yng ngherddorfa bres Clydach. Cafodd ei addysg elfennol yn yr ysgol genedlaethol. Yn ddeuddeg oed, wedi cyrraedd dosbarth ucha'r ysgol, treuliodd flwyddyn yn siop y teulu cyn cael ei brentisio'n ddilledydd yn Ystalyfera. Yn eglwys Soar yno y bedyddiwyd ef. Ar derfyn ei brentisiaeth, bu'n gweithio yn Abertawe a Chaerdydd cyn ymsefydlu yng ngwasanaeth Colmers yng Nghaerfaddon. Ymaelododd yn eglwys Hay Hill, ac yn 1900 penderfynodd fynd i'r weinidogaeth. Yr wythnos y bu ei dad farw cafodd gyfweiliad am le yng Ngholeg Spurgeon. Dechreuodd ei gwrs yno yn Ionawr 1902. Yn ystod gwyliau Nadolig 1904 cafodd brofiad o Ddiwygiad [Evan Roberts](#). Bu'n fyfyrwr-weinidog yn Thorpe-le-Soken, a throdd ei olygon at y meysydd cenhadol, China yn bennaf, ond penderfynodd Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr (B.M.S.) ei ddanfôn i'r Congo. Ar ôl hyfforddiant yn Sefydliad Livingstone a rhai misoedd i wella'i Ffrangeg ym Mrwsel, gadawodd Lundain yn niwedd Awst 1906 a mynd i'w orsaf genhadol yn Yalamba yn y Congo ger aber yr afon Aruwimi. Ymfwriddoedd i ddysgu ieithoedd y trigolion a pharatoi i gyfieithu'r *Testament Newydd* i Heso a Lingala. Molembia oedd enw y brodorion arno a mawr oedd eu parch tuag ato. Perffeithiodd ei feistrolaeth ar Heso, ond Lingala oedd yr iaith gyffredin i drigolion blaenau'r Congo, ac i honno y cyfieithodd y Testament ysgrifenedig. Cyfansoddai emynau yn yr ieithoedd a'u canu ar donau Cymreig.

Yn 1919, penderfynodd y Gymdeithas ei symud i Leopoldville, dinas a oedd yn cynyddu'n gyflym. Ei dasg oedd canolbwyntio ar y newydd-ddyfodiad o lwyth y Bangala a siaradai Lingala. Yn 1933, oherwydd gwaeledd iechyd dychwelodd i weithio fel cynrychiolydd y Gymdeithas Genhadol yng Nghymru, a bu'n weithgar arbennig gyda threfniadau ysgolion haf y Gymdeithas mewn gwahanol ganolfannau yng Nghymru cyn ymsefydlu dros gyfnod yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth, ac ar ôl hynny yn y Cilgwyn, Castellnewydd Emlyn. Yr oedd ei hiwmor iach a'i fwrwm yn ysbrydiaeth yn yr ysgolion hyn. Ymddeolodd yn 1943, a threuliodd weddill ei oes yn y Mwmbwls, gan ymaelodi yng Nghapel Gomer, Abertawe.

Priododd, yn Nhachwedd 1914, Margaret Parker, diacones yng nghapel (B) Bloomsbury. Bu iddynt ddwy ferch. Bu farw 4 Mai 1958, newydd gael ei ethol yn aelod anrhydeddus o'r B.M.S.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

J. Williams Hughes, *D. Christy Davies* (Llundain 1962)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20821098](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

